**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Committee Room 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 25 Gorffennaf 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P R Hood-Williams | E T Kirchner |
| M B Lewis | S Pritchard | C Richards |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Sheridan | Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn |
| Jo Veck | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Sykes, G Tanner

---

**10 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**11 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

**12 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) - Deall Goblygiadau ACE i Ddinasyddion.**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn gyflwyniad ar Les - Fframwaith Strategaeth sy'n ymwneud â'r ymagwedd strategol at les plant a phobl ifanc a oedd yn cynnwys cydnabod effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Amlinellodd y cefndir, y diffiniad o les, y weledigaeth, yr egwyddorion a'r model hyrwyddo, meithrin a chefnogi graddedig a'r Fframwaith Lles.

Awgrymodd fod y pwyllgor yn cymryd ymagwedd fwy trosgynnol o ran lles, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ymagwedd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Awgrymodd y pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder ein bod i'w gweld yn canolbwyntio ar blant yn unig, er bod profiadau trawmatig yn gallu effeithio ar blant pan fyddant yn oedolion;
- Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi cyhoeddi ei Gynllun Lles - mae angen i ni ei gysylltu â'n partneriaid, e.e. yr Heddlu, y gwasanaeth iechyd, y trydydd sector;
- Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo gydag 'Ysgolion sy'n Parchu Hawliau';
- Amlygwyd enghraifft o hyfforddiant ar iechyd meddwl plant a oedd yn dangos ar sleidiau ymennydd plentyn wedi'i ysgogi'n dda o'i gymharu ag ymennydd plentyn nad yw wedi'i ysgogi'n dda;
- Mae angen i bob athro, llywodraethwr a staff fod yn ymwybodol o'r hyfforddiant sylfaenol. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn gwneud hyn ond nid yw'n gyson;
- Mae angen ymagwedd amlasiantaeth - gellir nodi'r mwyafrif o'r plant hyn gan eu hysgolion felly dylid nodi'r rheiny sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gynnar;
- 2 fath o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod - y rheiny y gellir eu rhagweld a'r rheiny nad oes modd eu rhagweld;
- Y gwasanaethau mwyaf addas ar gyfer nodi achosion cynnar fyddai drwy gydweithwyr mewn gwasanaethau mamolaeth ac iechyd e.e. ymwelwyr iechyd;
- Hefyd, mae problem fawr gyda gofalwyr sy'n oedolion ifanc - nid ydynt yn ystyried bod bod yn ofalwr ifanc sy'n oedolyn yn enghraifft o brofiad niweidiol yn ystod plentyndod;
- Byddai'n dda gallu atal plant sy'n dioddef o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod rhag cael yr un problemau pan fyddant yn oedolion.

Nododd Simon Jones, Swyddog Gwella Perfformiad a Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, fod Hwb Cefnogi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod sydd â chynrychiolwyr yn y gwasanaeth iechyd, yr Heddlu a'r trydydd sector y gellir ei ddefnyddio os bydd angen.

Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn mai'r opsiwn a ffefrir oedd i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod fod yn rhan o'r Strategaeth Lles gyda ffrwd waith o gwmpas profiadau niweidiol yn ystod plentyndod er mwyn datblygu sgiliau megis hyfforddi'r hyfforddwr. Gallai fod cynllun gweithredu wedi hynny i ddatblygu ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg er mwyn cwmpasu camau gweithredu fel rhan o'r ffrwd waith a fyddai'n cyfrannu at y Strategaeth Lles ehangach. Byddai hefyd yn nodi lle gwnaed cynnydd.

Ystyriodd y pwyllgor a ddylid parhau â'r Cynllun Gwaith fel y cytunwyd arno'n flaenorol neu a oes angen ei newid ychydig er mwyn cefnogi'r 'Is-grŵp Ymddwyn yn Dda' er mwyn datblygu'r Strategaeth Lles ehangach.

Cytunodd y pwyllgor y dylid canolbwyntio ar ganlyniad cyraeddadwy, megis canolbwyntio ar sicrhau bod ymagwedd gyson ar gyfer pob aelod o staff,

llywodraethwr, athro a chynghorydd mewn perthynas â hyfforddiant sy'n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Gallai'r pwyllgor hefyd gael ei ddiweddaru am cynnydd y Strategaeth Lles fel y bo angen.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn am ei gyflwyniad.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cyflwyniad;
2) Y bydd Simon Jones, Swyddog Gwella Perfformiad a Strategaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i ystyried ymhellach oblygiadau i ddinasyddion o ran profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

**13 Cynllun Gwaith 2018-2019.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r Cynllun Gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**